

Uwchraddio'r Grid

Cyswllt Gorllewinol 2

nationalgrid

# Ymgynghoriad Cam 1 cylchlythyr cymunedol

Mehefin 2026

## National Grid Electricity Transmission (National Grid) sy'n berchen ar y system drawsyrru foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn darparu trydan mewn modd diogel, dibynadwy ac effeithlon i'r cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn.

**Disgwylir y bydd y galw am drydan yn dyblu erbyn 2050 wrth i'r ffordd y byddwn yn pweru ein cartrefi, ein busnesau, ein diwydiannau a'n dulliau trafnidiaeth newid. Mae angen inni uwchraddio'r grid fel y gallwn fodloni'r cynnydd hwn mewn galw.**

Mae Cyswllt Gorllewinol 2 yn rhan o Uwchraddio'r Grid, sef y cynllun mwyaf ers cenedlaethau i atgyfnerthu'r grid. Bydd ein prosiectau seilwaith ledled Cymru a Lloegr yn ein galluogi i gludo mwy o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir o'r mannau lle caiff ei gynhyrchu i'r mannau lle mae ei angen, gan roi hwb i ddiogelwch ynni Prydain.

Byddai Cyswllt Gorllewinol 2 yn atgyfnerthu'r rhwydwaith trawsyrru sy'n cludo trydan i, ac o'r Alban a Chymru. Gyda'r hyblygrwydd hwn, byddem yn gwella diogelwch ynni'r DU, yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy cynhenid, ac yn helpu i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw wrth i'r system ynni newid.

Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn cynnig buddion lleol. Bydd darparu seilwaith ynni newydd sylweddol yn cefnogi economiau lleol, yn creu swyddi, cynnig cyfleoedd sgiliau newydd ac yn cynrychioli buddsoddiad hirdymor mewn cymunedau.

**Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion ac i gael gwybod sut y gallwch roi adborth.**

### Cymryd rhan yn ein hymgynghoriad

Yr ymgynghoriad Cam 1 hwn yw ein hymgynghoriad cyntaf mewn perthynas â Cyswllt Gorllewinol 2, a bydd ar waith am bedair wythnos **o 12yp ar ddydd Mawrth 23 Mehefin i 11:59yh ar ddydd Mawrth 21 Gorffennaf.**



# Ynglŷn â'r prosiect

## Bydd Cyswllt Gorllewinol 2 yn cludo trydan trwy gebl tanfor Cerrynt Union Foltedd Uchel (HVDC) o Ayrshire ar arfordir gorllewin yr Alban i lanfa ar arfordir Gwynedd.




**O'r fan honno, byddai ceblau HVDC tanddaearol yn cysylltu â gorsaf drawsnewid arfaethedig ger is-orsaf Pentir. Yna, byddai'r orsaf drawsnewid newydd yn cael ei chysylltu ag is-orsaf bresennol National Grid ym Mhentir trwy gyfrwng cysylltiad cebl Cerrynt Eiledol Foltedd Uchel (HVAC).**

Datblygir y prosiect ar y cyd gan National Grid a Scottish Power Energy Networks (SP Energy Networks), ac mae pob cwmni'n gyfrifol am wahanol elfennau o'r prosiect.

Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gofynnwn ichi fynegi eich safbwyntiau ynglŷn ag elfen Cymru yn unig o'r prosiect. SP Energy Networks sy'n gyfrifol am yr elfennau sy'n ymwneud â'r Alban, ac aeth ati i gynnal ei ymgynghoriad cyntaf ym mis Tachwedd 2025.

Yn ystod y cam hwn, rydym yn awyddus i gael eich adborth ar elfennau alltraeth, wrth y lan ac ar y tir y prosiect:

- oddeutu 195 cilometr o gebl HVDC alltraeth newydd, a fydd yn dechrau wrth derfyn deheuol moroedd tiriogaethol yr Alban, hyd at derfyn moroedd tiriogaethol Cymru
- oddeutu 65 cilomedr o gebl HVDC agos i'r lan newydd, wrth iddo gyrraedd moroedd tiriogaethol Cymru i fae cyswllt trosglwyddo tanddaearol newydd ar lanfa a leolir ar arfordir Gwynedd, ym Mae Caernarfon
- bae cyswllt trosglwyddo tanddaearol newydd mewn lleoliad ar arfordir Gwynedd, ym Mae Caernarfon, lle bydd y cebl HVDE morol newydd yn cysylltu â'r cebl HVDC newydd ar y tir
- tri opsiwn ar gyfer glanfa bosibl ar arfordir Gwynedd (bydd un opsiwn a ffefrir yn cael ei adnabod)
- llwybr cebl HVDC tanddaearol newydd, oddeutu 25 cilometr o hyd, o lanfa a leolir ar arfordir Gwynedd i orsaf drawsnewid newydd (a gyflwynir fel 'ardal graddoledig' gyda'r ardal dywyllach yn dangos ein opsiwn a ffefrir ar gyfer llwybr y cebl)
- dau opsiwn ar gyfer lleoli gorsaf drawsnewid newydd wrth ymyl yr is-orsaf bresennol ym Mhentir (gyda'r opsiwn a ffefrir ym mharth Dwyrain Pentir), yn cynnwys darn byr newydd o gysylltiad cebl tanddaearol HVAC o'r orsaf drawsnewid i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir
- estyniad newydd i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir, fel y gellir cysylltu Cyswllt Gorllewinol 2 â rhwydwaith trawsyrru presennol Cymru.

Yn ystod y cam hwn, rydym yn cyflwyno opsiynau a ffefrir ar gyfer llwybr y cebl, lleoliad y lanfa a lleoliad yr orsaf drawsnewid, ar ffurf 'ardal graddoledig'. Mae'r llecynnau tywyllach yn dangos yr opsiynau a ffefrir ar sail y gwaith a wnaed gennym hyd yn hyn.


**Nodwch**: mae'r ardal raddoledig yn cynrychioli ardal llawer mwy na'r hyn sydd ei hangen er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad a gwaith gwerthuso technegol pellach.

Mae hefyd gennym ddiddordeb mewn clywed am y canlynol:

- ardaloedd neu nodweddion lleol sy'n bwysig i chi, a sut y gallai ein cynigion effeithio arnynt
- unrhyw beth arall y dylem ei ystyried wrth inni ddatblygu mwy ar ein cynigion.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried yr holl adborth yn ofalus. Bydd yr adborth hwn, ochr yn ochr ag asesiadau technegol ac arolygon amgylcheddol, yn ein helpu i fireinio ein cynigion.






Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri



# Ein hymgynghoriad

## Rydym yn awyddus i gyflwyno ein cynigion yn gynnar yn y broses, ynghyd ag esbonio sut y cawsant eu datblygu a'ch gwahodd i gyflwyno adborth. Gelwir y rhan gyntaf hon o'r ymgynghoriad yn ymgynghoriad Cam 1.

**Rydym yn dymuno cael adborth gan gymunedau lleol, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid allweddol yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r prosiect, er mwyn sicrhau bod yr adborth a'r wybodaeth leol yn dylanwadu ar ein cynlluniau wrth iddynt fynd rhagddynt.**

Rydym yn awyddus i weithio'n agos gyda chymunedau lleol, eu cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid hollbwysig er mwyn gallu deall ardal y prosiect yn well. Bydd hyn yn ein helpu i leihau'r effeithiau i'r graddau y bo modd, ynghyd â chynyddu buddion i gymunedau lleol.

Bydd ymgynghoriad Cam 1 ar waith o **12yp ddydd Mawrth 23 Mehefin tan 11.59yh nos Fawrth 21 Gorffennaf 2026**. Mae ar agor i bawb sydd â ddiddordeb yn ein cynigion.

## Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn nifer o wahanol ffyrdd:

**Ar-lein**
Gallwch lenwi ffurflen adborth ar-lein i gyflwyno eich adborth. Mae'r ffurflen ar gael yma: **nationalgrid.com/westernlink2**

**E-bost**
Gallwch anfon adborth ysgrifenedig trwy e-bost i'r cyfeiriad **Westernlink2@nationalgrid.com**

**Ffurflen adborth bapur**
Gallwch lawrlwytho ffurflen adborth oddi ar ein gwefan, gan ei hargraffu, ei llenwi a'i dychwelyd i'r cyfeiriad **FREEPOST W LINK 2** (ni fyddwch angen stamp ac ni fydd angen nodi unrhyw gyfeiriad arall).

Hefyd, gallwch gasglu ffurflen adborth bapur mewn unrhyw un o'r digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd neu yn y mannau gwybodaeth lleol a restrir ar dudalen 7.

Fel arall, gallwch ofyn am gopi o'r pecyn ymgynghori (cylchlythyr cymunedol, ffurflen adborth ac amlen rhadbost) trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad **Westernlink2@nationalgrid.com** neu trwy ein ffonio ar 0800 156 0706.

Mae'r ffurflenni adborth a'r pecynnau ymgynghori ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Mae croeso ichi gyflwyno adborth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.**

**Pwysig: Er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi eich safbwyntiau'n gywir, gofynnwn ichi gyflwyno eich adborth yn ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r dulliau uchod.**

# Rhagor o wybodaeth

## Rydym yn eich annog i gyflwyno adborth ar ôl adolygu ein deunyddiau ymgynghori.

**Ceir gwybodaeth fanylach am y prosiect yn y ddogfen ymgynghori Cam 1.**

O 23 Mehefin ymlaen, bydd y ddogfen hon ar gael ar wefan y prosiect, a hefyd bydd copi caled ohoni ar gael yn y digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd ac yn y mannau gwybodaeth lleol, neu gallwch ofyn am gopi caled.

Nodir gwybodaeth fwy technegol, yn cynnwys manylion am y llwybrau a'r lleoliadau a aseswyd gennym, ynghyd â'r opsiynau a ffefrir, yn *Terrestrial Corridor Preliminary Routeing and Siting Study (TCPRSS), Marine Corridor Preliminary Routeing and Siting Study (MCPRSS)* a'r ddogfen *Summary of Landfall and Terrestrial Routeing and Siting Options.*

Mae'r *Adroddiad Opsiynau Strategol (SOR)* yn esbonio'r gwahanol opsiynau a ystyriwyd ar gyfer gwneud y gwaith gofynnol i uwchraddio'r rhwydwaith.




### Hefyd, gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy wneud y pethau canlynol:

**Mynychu digwyddiad gwybodaeth i'r cyhoedd**
Dewch draw i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb i weld ein hopsiynau a'n cynigion, i siarad â thîm y prosiect ac i ddarllen ein deunyddiau ymgynghori.

**Edrych ar wefan y prosiect**
**nationalgrid.com/westernlink2**
Yma, gallwch ddod o hyd i gopïau digidol o'r holl ddeunyddiau ymgynghori, yn cynnwys mapiau, dogfennau technegol, a'n ffurflen adborth. Hefyd, bydd modd ichi weld ein map rhyngweithiol ar wefan y prosiect, lle gallwch weld ein cynigion yn fanylach. Bydd modd gweld y rhain ar ôl i'r ymgynghoriad ddechrau, a byddant yn parhau i fod ar y wefan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

**Mynychu gweminar**
Ymunwch ag un o'n gweminarau ar-lein trwy gofrestru ar wefan y prosiect, neu gallwch gysylltu â ni dros y ffôn neu trwy e-bost. Bydd y gweminarau hyn yn cael eu recordio a'u uwchlwytho ar wefan y prosiect.

**Gofyn am gopïau o ddeunyddiau argraffedig**
Mae deunyddiau argraffedig ar gael ar gais (efallai y codir tâl am argraffu rhai dogfennau technegol). Hefyd, fesul achos, byddwn yn ystyried ceisiadau am fformatau amgen, megis cyfieithiadau neu brint bras, er mwyn ystyried amgylchiadau unigol.

Gallwch hefyd gysylltu ag aelod o'r tîm trwy ffonio llinell ffôn y prosiect ar 0800 156 0706 neu trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad Westernlink2@nationalgrid.com

**Bydd gwefan ein prosiect yn cael ei ddiweddaru am 12yp ar 23 Mehefin.**

# Digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae croeso ichi ddod draw i'r digwyddiadau hyn. Ynddynt, byddwn yn cyflwyno gwybodaeth am y cynigion a ddatblygir, yn cynnwys ein deunyddiau ymgynghori, copïau o fapiau, a dogfennau technegol.

Bydd siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar gael i'ch tywys trwy ein cynigion ac ateb eich cwestiynau.

Ni fydd angen cofrestru; yn syml, dewch draw ar y diwrnod.

| Lleoliad | Cyfeiriad | Dyddiad |
|---|---|---|
| **Neuadd Bentref Clynnog Fawr**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: chicken.arranges.item* | Llys Eben,<br>Clynnog Fawr,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL54 5AQ | Dydd Iau 25 Mehefin, 2yp–7yh |
| **Neuadd Goffa Pen-y-groes**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: insist.manly.processes* | 2 Maes y Farchnad,<br>Pen-y-groes,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL54 6NN | Dydd Gwener 26 Mehefin, 2yp–7yh |
| **Menter Gymunedol Bethel (Y Bedol)**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: elevator.northward.region* | Y Bedol, Bethel,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL55 1AX | Dydd Iau 9 Gorffennaf, 12–4.30yp |
| **Neuadd Bentref Rhiwlas**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: ditched.countries.cakewalk* | Rhiwlas, Bangor,<br>Gwynedd,<br>LL57 4GA<br>(dilynwch yr arwyddion i neuadd y pentref) | Dydd Gwener 10 Gorffennaf, 2yp–7yh |
| **Y Ganolfan Bontnewydd**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: match.uptake.stoppage* | Bontnewydd,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL55 2UF | Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf, 10yb–1.30yp |

# Gweminarau ar-lein

Byddwn yn cynnal gweminarau ar-lein lle byddwn yn cyflwyno manylion am ein cynigion. Yna, bydd sesiwn holi ac ateb yn cael ei chynnal.

Bydd manylion ynglŷn â sut i gofrestru ar gyfer gweminar ar gael ar wefan y prosiect ar ôl i'r ymgynghoriad ddechrau. Hefyd, gallwch gofrestru trwy gysylltu â ni ar **0800 156 0706** neu trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad **WesternLink2@nationalgrid.com**

| | | |
|---|---|---|
| **Gweminar trwy gyfrwng y Gymraeg** | **Dydd Mawrth 7 Gorffennaf** | **6–7yh** |
| **Gweminar trwy gyfrwng y Saesneg** | **Dydd Mawrth 7 Gorffennaf** | **7–8yh** |

# Mannau gwybodaeth lleol

Bydd copiau papur o'r cylchlythyr, y ddogfen ymgynghori Cam 1, ffurflen adborth ac amlenni rhadbost, ynghŷd â chopiau o'r dogfennau TCPRSS, MCPRSS, a'r ddogfen Summary of Landfall and Terrestrial Routeing and Siting Options a'r SOR, ar gael yn y lleoliadau a restrir isod o ddydd Mawrth 23 Mehefin ymlaen.

Mae'r SOR, MCPRSs a'r TCPRSS yn ddogfennau technegol, a dim ond yn y Saesneg y byddant ar gael.

Hefyd, gallwch lawrlwytho'r dogfennau hyn oddi ar wefan y prosiect: nationalgrid.com/westernlink2

| Lleoliad | Cyfeiriad | Oriau agor | |
|---|---|---|---|
| **Llyfrgell Bangor** | Ffordd Gwynedd,<br>Bangor, Gwynedd,<br>LL57 1DT | Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau<br>Dydd Mercher a dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 9:30yb–6yp<br>9:30yb–5yp<br>9:30yb–1yp<br>Ar gau |
| **Llyfrgell Gyhoeddus Bethesda** | Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen,<br>Ffordd Coetmor,<br>Bethesda,<br>Gwynedd,<br>LL57 3DP | Dydd Llun<br>Dydd Mawrth a dydd Sadwrn<br>Dydd Mercher<br>Dydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sul | 2–6yp<br>10yb–12yp<br>Ar gau<br>10yb–12yp a 2–5yp<br>2–5yp<br>Ar gau |
| **Byw'n Iach Plas Silyn (Canolfan Hamdden ym Mhen-y-groes)** | Plas Silyn,<br>Ffordd y Sir,<br>Pen-y-groes,<br>Gwynedd,<br>LL54 6HJ | Dydd Llun a dydd Iau<br>Dydd Mawrth a dydd Mercher<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn a dydd Sul | 9yb–9yh<br>9yb–10yh<br>9yb–7yh<br>9yb–3yp |
| **Byw'n Iach Plas Ffrancon** | Ffordd Newydd,<br>Coetmor, Bethesda,<br>Gwynedd,<br>LL57 3DT | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 7:30yb–9yh<br>7:30yb–8yh<br>9:30yb–3yp<br>10yb–4yp |
| **Llyfrgell Caernarfon** | Lôn Pafiliwn,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL55 1AS | Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau<br>Dydd Mercher a dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 9:30yb–6yp<br>9:30yb–5yp<br>9:30yb–1yp<br>Ar gau |
| **Gwaith Llechi Inigo Jones** | Gwaith Llechi Tudor,<br>Y Groeslon,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL54 7UE | Dydd Llun i ddydd Sadwrn | 9yb–5yp |
| **Menter Ty'n Llan** | Ty'n Llan, Llandwrog,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL54 5SY | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn a dydd Sul | 12yp–11yh<br>10:30yb–11yh<br>12yp–11yh |

*Sylwer: gall oriau agor mannau gwybodaeth lleol newid. Argymhellwn eich bod yn holi'r lleoliad perthnasol i gael yr oriau agor diweddaraf.

# Arolygon

**Efallai y gwelwch ni yn eich ardal tra byddwn yn arolygu safleoedd. Diben ein harolygon yw sicrhau ein bod yn deall yr ardal leol yn well, yn ogystal â chasglu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i fwrw ymlaen â'n hasesiadau technegol ac amgylcheddol.**

Er mwyn ein helpu i ddeall yr ardal leol a phennu unrhyw effeithiau posibl, rydym angen cynnal amrywiaeth o arolygon ac asesiadau, gan ddefnyddio gwahanol fathau o gyfarpar ac offer. Rydym yn parhau i weithio gyda thirfeddianwyr i geisio'r cytundebau mynediad angenrheidiol ar gyfer cynnal a chwblhau'r arolygon hyn cyn gynted ag y bo modd.

Pan na fo'n glir pwy yw perchennog y tir, efallai y byddwn yn arddangos hysbysiadau ar, neu wrth ymyl, y tir er mwyn ceisio dod o hyd i'r tirfeddianwyr perthnasol. Bydd hyn yn ein galluogi i gysylltu â'r bobl iawn a thrafod y trefniadau mynediad ar gyfer cynnal y gwaith arolygu pan fo angen.


# Camau nesaf

Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, byddwn yn ystyried yr holl adborth yn ofalus. Bydd yr adborth hwnnw, ochr yn ochr ag asesiadau technegol ac arolygon amgylcheddol, yn ein helpu i fireinio ein cynigion.

Yna, byddwn yn cynnal ail ymgynghoriad – sef Ymgynghoriad Cam 2 Statudol - lle byddwn yn cyflwyno cynigion mwy datblygedig cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y prosiect.

## Amserlen Cyswllt Gorllewinol 2

Sylwch, nid dyddiadau pendant yw'r rhain a gallant newid.




## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

**0800 156 0706**

**Westernlink2@nationalgrid.com**

**FREEPOST W LINK 2**
(ni fyddwch angen stamp ac ni fydd angen nodi unrhyw gyfeiriad arall).

**Os ydych yn dirfeddiannwr**
Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach ar gyfer tirfeddianwyr ar y dudalen tirfeddianwyr ar wefan y prosiect. Os ydych yn dirfeddiannwr ac os ydych o'r farn y gallai ein cynigion effeithio ar eich eiddo, gallwch gysylltu â'n tîm Tiroedd dros y ffôn ar **0333 038 5710** (dydd Llun i ddydd Gwener) neu gallwch anfon e-bost i'r cyfeiriad **wl2@dalcourmaclaren.com**